Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn,

Diolch unwaith eto am roi ystyriaeth i Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'u cytuno, a hoffwn ddiolch i'ch Pwyllgor am ei argymhellion yn hyn o beth.

Yn ystod y drafodaeth ar yr Egwyddorion Cyffredinol ar 8 Rhagfyr fe wnes gadarnhau y byddwn yn darparu ymateb manwl i adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor a'i 29 o argymhellion. Rwyf wedi amlinellu isod fy ymateb i'r argymhellion; mae hyn yn cynnwys manylion ble rwy'n cytuno mae angen cyflwyno gwelliannau i'r Bil. Rwyf eisoes wedi cyflwyno 20 o welliannau gan y Llywodraeth a byddaf yn cyflwyno gwelliannau pellach mewn ail gyfran fis nesaf.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm yn helpu i lywio'ch gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd trwy Gyfnod 2.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Jane

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) Cyfnod 1
Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor ac Ymateb Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal ymgyrch ehangach i godi ymwybyddiaeth er mwyn annog ymwybyddiaeth gyhoeddus eang o Awdurdod Cyllid Cymru a threthi datganoledig cyn 2018.

Derbyn: Rwyf wedi ymrwymo i ymgysylltu parhaus. Fel y cyhoeddwyd eisoes, byddaf yn cyhoeddi Papur Trysorlys ar drethi Cymru yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn ein helpu i ymgysylltu ymhellach ar ddatganoli trethi, gan gynnwys hysbysu pobl am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn a beth a ragwelir yn y dyfodol, a dechrau datblygu elfennau allweddol perthynas adeiladol rhwng y sefydliad newydd, Awdurdod Cyllid Cymru, a threthdalwyr datganoledig. Bydd hyn yn cael ei ffurfioli yn y Siarter safonau a gwerthoedd. Byddwn yn disgwyl i'r Awdurdod Cyllid ddechrau ymgynghori ar Siarter yn fuan ar ôl ei ffurfio fel bod y ddogfen ar waith pan fydd y broses o gasglu trethi'n dechrau. Yn sicr byddwn yn annog yr Awdurdod Cyllid i ystyried cynnwys ymrwymiad yn ei Siarter i ymgysylltu â'i randdeiliaid mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol ar bob mater, gan gynnwys y gwaith o ddatblygu ei weithdrefnau trethi datganoledig, lle bo'n briodol.

Rwyf hefyd am gychwyn arolwg o lefel gyfredol ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynigion sy'n cael eu datblygu yng nghyswllt trethi datganoledig ac ailedrych ar hyn dros amser.

Bydd angen dechrau ar y gwaith o wella ymwybyddiaeth o'r trethi datganoledig newydd a'r newidiadau o ran eu casglu a'u rheoli ymhell cyn mis Ebrill 2018. Rwy'n ymrwymo i sicrhau y bydd y bobl a fydd yn talu trethi datganolediig Cymru yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell cryfhau'r Bil er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a dylid darparu'n benodol ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.

Rwy'n gwbl gefnogol o sicrhau bod yr Awdurdod Cyllid yn gallu gweithredu'n annibynnol, ac na fydd gan Weinidogion unrhyw rôl i'w chwarae ym materion trethdalwyr unigol. Fodd bynnag, am y rhesymau isod, credaf fod y Bil yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu gweithredu'n annibynnol. Rwyf, wrth gwrs, yn barod i drafod y pwynt hwn ymhellach ac, yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn cadw mewn cof adran 7 o Ddeddf Cyllid yr Alban a Phwerau Trethu 2015 (y byddwch yn gyfarwydd â hi o'n sesiynau craffu).

Mae ein dull gweithredu a'n cynigion ar gyfer yr Awdurdod Cyllid yn gyson â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland mewn nifer o feysydd allweddol:

- maent oll yn gweithredu'n gwbl annibynnol er mwyn sicrhau nad yw Gweinidogion yn cael eu cysylltu â gwaith rheoli materion trethdalwyr o ddydd i ddydd.
- maent oll yn adrannau anweinidogol ac yn cael eu staffio gan weision sifil;
- mae ganddynt oll bwerau cyfreithiol a chyfrifoldebau helaeth wedi'u breinio ynddynt (yn y Comisiynwyr yn achos Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) ac maent yn gyfrifol am arfer y pwerau hynny yn unol â'r gyfraith;
- maent oll yn cyflwyno polisi treth a bennwyd gan Weinidogion;

- mae Gweinidogion yn penodi aelodau anweithredol eu Byrddau (mae comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi'n cael eu penodi drwy freinlythyrau, ond gallant ymddiswyddo drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Trysorlys); ac
- maent oll yn atebol i Dribiwnlysoedd a Llysoedd am y ffordd y maent yn arfer eu pwerau.

Mae casglu trethi yn un o swyddogaethau'r llywodraeth gan fod derbyniadau treth yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd angen i'r Awdurdod Cyllid, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland, gasglu trethi o fewn y polisïau trethi a'r blaenoriaethau a bennwyd gan Weinidogion. Mae angen i Weinidogion Cymru allu rhoi cyfarwyddyd strategol i'r Awdurdod Cyllid ar flaenoriaethau polisi trethi datganoledig; er enghraifft, ar y pwyslais y dylid ei roi ar waith cydymffurfio â threthi ac osgoi trethi. I'r perwyl hwn, mae adran 14 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol (yn yr un modd ag y mae'r Trysorlys yn cael rhoi cyfarwyddiadau cyffredinol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Fodd bynnag, yn bwysig, nid yw'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi unrhyw gyfarwyddyd penodol i'r Awdurdod Cyllid o ran sut y dylai wneud penderfyniadau yn achosion trethdalwyr unigol. Pe bai Gweinidogion Cymru yn ceisio rhoi cyfarwyddiadau o'r fath, byddai hynny'n amlwg yn anghyfreithlon.

Mae Rhan 8 o'r Bil yn rhoi hawliau adolygu ac apelio cynhwysfawr i drethdalwyr, gan eu galluogi i ddwyn yr Awdurdod Cyllid i gyfrif am ei benderfyniadau. Felly, gall unrhyw awgrym gan drethdalwr fod yr Awdurdod Cyllid wedi cael ei ddylanwadu'n ormodol gan Weinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i graffu barnwrol manwl. Mae Rhan 8 o'r Bil yn rhoi pwerau eang i'r tribiwnlysoedd gadarnhau, amrywio neu ddileu penderfyniadau'r Awdurdod Cyllid.

Hefyd, mae adran 19 o'r Bil yn creu trosedd mewn cysylltiad â datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr yn anghyfreithlon. Mae hwn yn gam diogelu hanfodol i drethdalwyr, sy'n atal swyddogion yr Awdurdod Cyllid rhag rhannu gwybodaeth gyfrinachol am drethdalwyr unigol gyda Gweinidogion ac eraill.

Fel y dywedwyd yn flaenorol, rwyf wedi pwyso a mesur sylwadau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol y gallai Gweinidogion eu rhoi o dan adran 14. Ar hyn o bryd, mae adran 14 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i'r Awdurdod Cyllid oni bai eu bod yn ystyried y byddai eu cyhoeddi yn tanseilio gallu'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi pryderon am y cafeat ynghylch peidio â chyhoeddi ac felly cyflwynais welliant 2 ar 9 Rhagfyr, i'w ddileu. Os caiff ei gytuno, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru yn cael ei gyhoeddi. Bydd hyn yn darparu tryloywder llwyr ac yn galluogi eraill i graffu ar unrhyw gyfarwyddiadau a'r rhesymau dros eu gwneud.

Mae hwn yn amlwg yn bwynt pwysig i ni i gyd ac mae'n hollbwysig ein bod yn ei gael yn iawn. Byddwn yn hapus i'w drafod ymhellach gyda'r Pwyllgor.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 3(1)(d) o'r Bil gael ei diwygio i sicrhau bod yr aelodau o staff a benodir i'r bwrdd yn cael eu gwneud drwy broses o enwebu gan y Prif Weithredwr i ddechrau ac yna drwy gynnal pleidlais staff pan fydd lleoedd gwag yn codi yn y dyfodol.

Derbyn: Rwy'n hapus i ystyried cyflwyno gwelliannau a fyddai'n darparu aelod gweithredol ychwanegol o'r Awdurdod i gynrychioli staff ac i benodiad o'r fath gael ei wneud drwy bleidlais staff.

Bydd y gwelliannau hefyd yn addasu'r broses a ddilynir i'r aelodau gweithredol eraill o'r Awdurdod Cyllid ddod yn aelodau o'r Bwrdd. Felly, yn hytrach na bod yr Awdurdod Cyllid yn gwneud enwebiad, bydd y Prif Weithredwr yn gwneud argymhelliad a bydd aelodau anweithredol yr Awdurdod Cyllid y penodi yn unol â hynny (neu'n gofyn am argymhelliad gwahanol).

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Bil gynnwys mwy o fanylion am y cyfnod penodi ar gyfer aelodau anweithredol a byddai'n argymell y model a bennwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 fel enghraifft dda, ond dylai penodiadau anweithredol fod am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd ac ni ellir penodi person fwy na dwywaith.

Derbyn yn rhannol: Rwy'n ymrwymedig i weithredu'n agored a thryloyw wrth benodi ac wedi dweud o'r blaen y bydd egwyddorion Nolan yn berthnasol i bob penodiad anweithredol. Ymhellach, bydd telerau ac amodau'r rolau hyn yn cael eu hysbysebu'n gyhoeddus. Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor yn rhannol a byddaf yn cyflwyno diwygiad sy'n diffinio'r cyfnod penodi ac uchafswm y cyfnod gwasanaethu.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r darpariaethau yn Rhan 2 mewn perthynas â'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd fod yn gyson oni bai bod rheswm dilys dros gael darpariaethau gwahanol.

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Dirprwy Gadeirydd a'r Cadeirydd yn wahanol o reidrwydd. Mae'r darpariaethau ar gyfer Dirprwy Gadeirydd yn adlewyrchu'r ffaith bod penodiad o'r fath yn ychwanegol at benodi aelod anweithredol. Yn wahanol i'r Cadeirydd, gallai'r Dirprwy Gadeirydd barhau yn rôl yr aelod anweithredol er nad yw'n gweithredu fel Dirprwy Gadeirydd mwyach.

Mae hyn yn golygu bod darpariaethau wedi eu gwneud ar gyfer Dirprwy Gadeirydd nad oes eu hangen ar gyfer Cadeirydd (h.y. i'r perwyl fod person yn gallu ymddiswyddo fel aelod anweithredol *neu* Ddirprwy Gadeirydd (a. 5(3)) ac na fydd person yn Ddirprwy Gadeirydd mwyach pan fydd ef/hi yn rhoi'r gorau i fod yn aelod anweithredol (a. 6(2)). Mae hyn oherwydd bod y cadeirydd yn aelod anweithredol *yn unig*, tra bo'r Dirprwy gadeirydd yn aelod anweithredol *ac* yn Ddirprwy Gadeirydd.

O dan yr amgylchiadau, nid yw'r darpariaethau fel y'u drafftiwyd yn gofyn am unrhyw welliant.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio adran 8(4) sy'n gwneud darpariaeth i Brif Weithredwyr "gael eu penodi gan ACC" (yn dilyn y penodiad cyntaf gan Weinidogion Cymru) er mwyn sicrhau mai'r aelodau anweithredol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar benodi (yn hytrach na chyflogeion sy'n aelodau o'r Bwrdd).

Derbyn: Byddaf yn dwyn ymlaen diwygiad i adran 8(4) yng Nghyfnod 2 fel y bydd penodiadau Prif Weithredwr (ar ôl y penodiad cyntaf gan Weinidogion Cymru) yn cael eu gwneud gan aelodau anweithredol Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru yn hytrach na holl Fwrdd yr Awdurdod.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i sicrhau bod cworwm y Bwrdd yn rhagnodi mwyafrif o aelodau anweithredol.

Derbyn: Rwyf am i Fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru gael mwyafrif o aelodau anweithredol bob amser. Byddaf yn dwyn ymlaen gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cyllid Iunio rheolau ynghylch cworwm a bod y rheolau hynny'n nodi bod angen i fwyafrif yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o Fwrdd yr Awdurdod Cyllid fod yn aelodau anweithredol er mwyn cael cworwm.

Mae gwelliant 1, a gyflwynwyd ar 9 Rhagfyr, yn sicrhau pe bai Gweinidogion Cymru'n defnyddio eu pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio nifer yr aelodau ar Fwrdd yr Awdurdod Cyllid, mai dim ond mewn ffordd sy'n cadw mwyafrif anweithredol y gallent wneud hynny.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai o leiaf un aelod anweithredol fod yn aelod o bob pwyllgor/is-bwyllgor, oni bai ei fod yn bwyllgor/is-bwyllgor nad yw'n gwneud penderfyniadau.

Derbyn: Mae cyfraniad aelodau anweithredol at waith yr Awdurdod yn hanfodol ac rwy'n gwerthfawrogi'r pwynt a wneir yn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n bwriadu dwyn ymlaen gwelliannau yn nodi, pan fo'r Awdurdod Cyllid yn awdurdodi un o'i bwyllgorau neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath i gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan adran 12(b) o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi, bod rhaid i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor y mae'n rhoi awdurdod iddo at y diben hwnnw gynnwys o leiaf un aelod anweithredol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru baratoi cynllun cyhoeddi ac y dylai'r holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau/is-bwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru fod ar gael yn gyhoeddus. Os oes rheswm dilys dros beidio â chyhoeddi penderfyniad, dylai'r rhesymau dros hyn fod ar gael yn gyhoeddus yn unol â'r cynllun cyhoeddi.

Derbyn: Rwy'n cytuno bod hyn yn arfer da. Fel awdurdod cyhoeddus, bydd angen i'r Awdurdod Cyllid gydymffurfio â rhwymedigaethau perthnasol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Felly, byddwn yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru:

- gyhoeddi'r dosbarthiadau o wybodaeth y bydd yn eu darparu,
- dweud wrth bobl sut i gael gafael ar wybodaeth o'r fath.

Wrth ffurfio'r trefniant ar gyfer cynllun o'r fath bydd angen i'r Awdurdod ystyried sut y bydd yn diogelu gwybodaeth am drethdalwyr unigol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Nodiadau Effaith a Gwybodaeth Treth (neu ddogfennau cyfatebol) gael eu cyflwyno ar gyfer pob amrywiad sylweddol i drethi datganoledig. Lle y bo'n briodol dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y nodiadau hyn yn cael eu paratoi ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau cyllideb. Dylai'r nodiadau hyn gael eu hadolygu gan Awdurdod Cyllid Cymru bob tair blynedd o leiaf a bod yn destun proses graffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad cyn cytuno ar gyllideb Awdurdod Cyllid Cymru.

Derbyn mewn egwyddor: pan gynigir deddfwriaeth trethi newydd, bydd asesiadau penodol o effaith yn cael eu cwblhau, er enghraifft, mewn perthynas â chydraddoldeb a grwpiau gwarchodedig a hawliau'r plentyn. Bydd hyn yn wir am y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi arfaethedig ac unrhyw drethi eraill a allai gael eu datganoli i Gymru yn y dyfodol. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o bob bil yn cynnwys amserlen ar gyfer adolygu pellach.

Rwy'n ystyried y byddai'n arfer da yn y dyfodol i ystyried cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw amrywiadau sylweddol i'r trethi datganoledig, yn enwedig pan fo newidiadau'n cael eu gwneud ochr yn ochr ag ystyriaethau cyllidebol ehangach.

Mae'n amlwg nad oes rôl i Awdurdod Cyllid Cymru yn syth yma, ond ar ôl iddo gael ei sefydlu ac os oes newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno i bolisi trethi byddwn yn disgwyl i'r Awdurdod fod â rôl bwysig o ran cyfrannu at y gwaith o ystyried polisi trethi, yn cynnwys materion gweithredu ymarferol. Yn wir, un o swyddogaethau'r Awdurdod yn sgil y Bil hwn fydd darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i Weinidogion Cymru, (adran 11 (2) (b).

Bydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru'n cael ei hegluro mewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth a fydd yn egluro rolau'r ddau mewn perthynas ag ystyriaethau polisi trethi yn y dyfodol yn cynnwys asesiadau.

Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn trafod y gyllideb a bydd y trafodaethau hyn yn ystyried blaenoriaethau polisi treth Gweinidogion a pherfformiad.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 12 gael ei diwygio i egluro bod rhai swyddogaethau pwysig (fel cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol) yn cael eu neilltuo fel cyfrifoldeb Awdurdod Cyllid Cymru ac na ddylid eu dirprwyo i'r staff.

Derbyn: Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n mabwysiadu argymhelliad y Pwyllgor, er mwyn sicrhau bod Bwrdd yr Awdurdod yn cadw'r cyfrifoldeb am baratoi'r cynllun corfforaethol, yr adroddiad blynyddol, y cyfrifon blynyddol a'r datganiad trethi.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod llinellau atebolrwydd clir yn cael eu sefydlu, drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb lefel gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r cyrff dirprwyedig sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi. Dylai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu'r cytundeb lefel gwasanaeth nodi safonau clir ar gyfer ymdrin â threthdalwyr.

Derbyn: Rwy'n derbyn y bydd hi'n bwysig gallu darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am unrhyw drefniadau dirprwyo ac mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer hyn. Mae Adran 13 o'r Bil yn darparu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru ac mae adran 13 (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi gwybodaeth am ddirprwyiadau neu unrhyw gyfarwyddiadau a wneir o dan yr adran honno.

Mae'n werth nodi hefyd y bydd angen i Siarter Awdurdod Cyllid Cymru gynnwys safonau ymddygiad a gwerthoedd ac y bydd y Siarter yr un mor berthnasol i'r Awdurdod ac unrhyw gorff arall sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell, lle mae Awdurdod Refeniw Cymru yn dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i sefydliad/sefydliadau, y dylid ystyried sicrhau bod y sefydliad/sefydliadau'n darparu lefel uchel o arbenigedd i drethdalwyr Cymru, gan gynnwys ystyried darpariaethau cyfrwng Cymraeg a nodi darpariaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn Datganiad o Safonau Gwasanaeth.

Derbyn: Mae safonau gwasanaeth a mynediad i arbenigedd trethi a darpariaeth Gymraeg yn ystyriaethau pwysig yn y trafodaethau parhaus rydym yn eu cynnal gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol yn awtomatig i Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd angen i'r Awdurdod gael ei safonau Cymraeg ei hun, gan gytuno arnynt gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd safonau o'r fath yr un mor berthnasol i'r Awdurdod ac unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau dirprwyedig ar ei ran. Gall yr Awdurdod ddirprwyo ei swyddogaethau, ond bydd yn dal i fod yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau yn effeithiol ac effeithlon.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i atal Llywodraeth Cymru rhag ymyrryd ag Awdurdod Cyllid Cymru o ran arfer ei swyddogaethau gweithredol.

Am y rheswm a roddwyd uchod, yn fy ymateb i argymhelliad 3, rwyf o'r farn fod y Bil eisoes yn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn gallu gweithredu'n annibynnol a'i fod yn darparu amddiffyniad helaeth i drethdalwyr unigol yn erbyn ymyrraeth gan Weinidogion Cymru.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i'r Siarter gyfeirio'n benodol at:

– wasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr;

– ei pherthnasedd i gyrff datganoledig sydd â chyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi.

Derbyn: fel y soniwyd o'r blaen o dan argymhelliad 2, rwy'n bwriadu ymgysylltu ar hyn yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut ddylai Siarter gyfeirio at ddarparu gwasanaeth o safon.

Gall Awdurdod Cyllid Cymru ddirprwyo ei swyddogaethau, ond bydd yn dal i fod yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac effeithlon. Felly, bydd safonau gwasanaeth yr un mor berthnasol i'r Awdurdod ac unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau dirprwyedig ar ei ran.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Siarter gyntaf gael ei chyhoeddi cyn bod y trethi perthnasol yn cael eu datganoli'n ffurfiol i Gymru ym mis Ebrill 2018.

Derbyn: bydd yn hanfodol i'r Siarter fod ar waith erbyn i'r gwaith o gasglu trethi ddechrau. Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn gyfrifol am y Siarter, ond byddwn yn disgwyl i'r Awdurdod ymgynghori ar y ddogfen arfaethedig yn y cyfnod hyd at 2018 ac i greu fersiwn derfynol ohoni a'i chyhoeddi fel ei bod ar waith erbyn i'r gwaith o gasglu trethi datganoledig ddechrau.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod:

– adran 25(2)(a) yn rhoi'r geiriau "glynu wrth" yn lle'r gair "ymgyrraedd";

– y gofyniad o dan adran 25(3)(b) i adolygu'r Siarter "o bryd i'w gilydd" yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer adolygiad o leiaf bob pum mlynedd.

Derbyn: mae gwelliannau 3, 4, 5, 8 a 9 a gyflwynwyd ar 9 Rhagfyr yn newid geiriad y ddarpariaeth ar gyfer Siarter fel y bydd disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru gydymffurfio â safonau ymddygiad a gwerthoedd wrth ymdrin â threthdalwyr a'u hasiantiaid.

Mae gwelliannau 6 a 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod Cyllid yn adolygu'r Siarter o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir y Siarter, ac o leiaf unwaith yn y cyfnod o 5 mlynedd yn dilyn adolygiad ar ôl hynny.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio adran 26(2) i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mesurau perfformiad allweddol.

Rwy'n cytuno bod mesur perfformiad yn hanfodol ac y dylai'r ffordd o wneud hyn fod yn gyhoeddus. Mae adran 26(2)(b) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru lunio cynllun corfforaethol ac mae'n rhaid iddo nodi'r canlyniadau ar gyfer mesur cyflawniad yn erbyn y prif ganlyniadau. Ni fyddaf yn cynnig gwelliant gan ei bod eisoes yn ofynnol i fesur perfformiad fod yn y cynllun corfforaethol.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 27 o'r Bil nodi y dylai'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 31 Awst i sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gael o fewn cyfnod amser penodol i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a chraffu effeithiol ar weithrediadau Awdurdod Cyllid Cymru.

Derbyn mewn egwyddor: Rwy'n fodlon edrych eto ar amseriad paratoi, adrodd a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol. Wrth wneud hynny, byddaf yn ystyried y cysylltiad rhwng amseriad cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ac amseriad cyhoeddi cyfrifon blynyddol a Datganiad Treth terfynol yr Awdurdod.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi Pwyllgor i graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru.

Yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 4 Tachwedd cyfeiriais at adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Tynnais sylw at hyn gan fod yr adran yn cyflwyno pwerau eang i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i berson fynychu i roi tystiolaeth neu gynhyrchu dogfennau. Gall y pwerau hyn gael eu defnyddio gan y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgor arall tebyg a awdurdodir gan y Cynulliad. Mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol bod pob un o feysydd y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yn ddarostyngedig i graffu gan bwyllgor. Y Llywodraeth ac Awdurdod Cyllid Cymru fydd yn gyfrifol am y trethi datganoledig, felly mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y maes hwn yn ddarostyngedig i graffu gan bwyllgor.

Soniais hefyd bod y Bil yn cynnwys sawl mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad yn cael gwybodaeth i'w helpu i graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru. Gyda'i gilydd, bydd y darpariaethau hyn yn galluogi'r Cynulliad i graffu ar yr Awdurdod, yn annibynnol ar Weinidogion Cymru, ond nid yw'r Bil yn nodi sut ddylai'r Cynulliad graffu ar yr Awdurdod. Y Cynulliad sydd i benderfynu ar drefniadau megis pa Bwyllgor ddylai graffu, nid mater i Lywodraeth Cymru ei bennu mewn deddfwriaeth yw hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddfau eraill y Cynulliad, fel Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er bod y Ddeddf honno'n amlinellu swyddogaethau penodol ar gyfer y Cynulliad, megis penodi aelodau anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad allu dirprwyo'r swyddogaethau hyn i Bwyllgor o'i ddewis, ymhlith pethau eraill, nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â chraffu cyffredinol ar Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad, y tu hwnt i'r gofyniad i gyflwyno dogfennau penodol ger ei fron.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio adran 30(3) er mwyn sicrhau bod geiriad y ddarpariaeth archwilio yn y Bil yn gyson â'r ddarpariaeth archwilio ar gyfer cyfrifon Gweinidogion Cymru fel y'i nodir yn adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Derbyn: Rwy'n nodi'r gwahaniaeth rhwng geiriad Deddf Llywodraeth Cymru a geiriad y Bil a byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant yng Ngham 2, fel yr argymhellwyd.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 32(3)(a) ynglŷn â chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon gyfeirio'n benodol at y cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol.

Derbyn: Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 11 sy'n diwygio adran 32(3)(a) i gynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon a Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi Datganiad o Ymarfer fesul treth i sicrhau hyblygrwydd yn achos trethi unigol wrth ddarparu sicrwydd ynghylch amserlenni i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Derbyn: Bydd hyn yn fater i Awdurdod Cyllid Cymru. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod Datganiad o Ymarfer fesul treth yn arfer da y dylai'r Awdurdod geisio ei ddilyn.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymdrin â chwynion yn erbyn Awdurdod Cyllid Cymru ac mewn perthynas â threfniadau tribiwnlys ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig ac yn cyflwyno gwelliannau os bydd hynny'n briodol.

Derbyn: Rwy'n nodi barn y Pwyllgor ar y mater hwn ac yn fodlon adolygu'r mater sydd wedi'i godi.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r diffiniad o wobrau gael ei egluro ar wyneb y Bil.

Mae'r ddarpariaeth yn adran 23 yn gyson â'r hyn a welir yn neddfwriaeth y DU a'r Alban. Er mwyn egluro'r ddarpariaeth hon ymhellach, byddaf yn darparu rhagor o fanylion yn y nodyn esboniadol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Bydd y nodyn yn ei gwneud yn glir fod y ddarpariaeth yn nodi y gall yr Awdurdod Cyllid dalu gwobr i rywun am wasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un o'i swyddogaethau, er enghraifft, am wybodaeth sy'n arwain at gasglu treth oedd heb ei ddatgan; ac y byddwn yn disgwyl y byddai unrhyw drefniadau a gyflwynir gan Awdurdod Cyllid Cymru fel a ganlyn:

- *yn ddewisol;*
- *yn daladwy fel canlyniad yn unig i'r hyn a gyflawnir fel canlyniad uniongyrchol o wybodaeth a ddarparwyd;*
- *yn cael eu pennu drwy ystyried ffactorau fel: treth sy'n cael ei hadennill; atal colli refeniw; manteision eraill y gellir eu mesur, fel lleihau amser/costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio.*

Argymhelliad 27

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau na chaniateir i Awdurdod Cyllid Cymru drin gwobrau fel didyniad o'r symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor nad yw darpariaeth adran 24 yn cynnwys 'gwobrau' ac felly nid yw'n darparu ar gyfer didynnu unrhyw wariant o'r fath o'r symiau a delir i Gronfa Gyfunol Cymru.

Argymhelliad 28 ac Argymhelliad 29

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi darpariaeth a fyddai'n trin Awdurdod Cyllid Cymru fel "person perthnasol" ychwanegol yn adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn lle adran 22 o'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau os bydd diwygiad i adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei gytuno gan y Cynulliad Cenedlaethol, y byddai'r Bil yn gallu cael ei basio yng Nghyfnod 4.

Os nad yw'n bosibl cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyllideb Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei nodi ar wahân a'i neilltuo yng nghynnig blynyddol cyllideb Llywodraeth Cymru.

Bydd Awdurdod Cyllid Cymru'n cyflawni swyddogaeth Llywodraeth ac felly mae'n briodol iddo dderbyn ei gyllid drwy broses gyllideb Llywodraeth Cymru. Bydd gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am gyllideb yr Awdurdod mewn ffordd debyg i Drysorlys Ei Mawrhydi a chyllideb Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth yr Alban a chyllideb Revenue Scotland.

Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, ei bod hi'n hanfodol bod cyllideb Awdurdod Cyllid Cymru yn dryloyw. Rwy'n ystyried ei bod hi'n bosibl sicrhau tryloywder o'r fath drwy gynnwys digon o fanylion o fewn Prif Grŵp Gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru – yr un sy'n ymwneud â Gwasanaethau Canolog o bosibl. Mae gan y Cynulliad oruchwyliaeth lawn dros broses y gyllideb a gall bleidleisio arni.

Rwyf wedi gwneud darpariaeth hefyd i Awdurdod Cyllid Cymru fod yn dryloyw o ran y ffordd mae'n defnyddio ei gyllideb. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi

cyfrifon y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru'n adrodd arnynt cyn eu cyflwyno gerbron y Cynulliad. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Treth o'r swm o arian a gasglwyd ganddo yn ystod blwyddyn ariannol a bydd hwn hefyd yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad.

Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC)

Argymhellion

Mae CLAC yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adrannau 3, 4, 26 a 186 o'r Bil

Ar hyn o bryd, mae'r pwerau hyn yn destun gweithdrefn negyddol, ond mae CLAC yn argymell y dylent fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol, gan fod deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio.

Rwyf wedi nodi barn y Pwyllgor ar y mater ehangach yn ymwneud â'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol. Rwyf yn nodi hefyd bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y mater hwn. Yn y llythyr hwnnw mae'n egluro bod y dewis rhwng y weithdrefn negyddol a chadarnhaol yn cael ei ystyried yn ôl teilyngdod pob achos, ac yn y pen draw ar sail nifer o ffactorau, yn cynnwys natur y pŵer, ei gwmpas tebygol, ac amgylchiadau defnyddio'r pŵer.

O ystyried cwmpas ac amgylchiadau posibl defnyddio'r pwerau yn adrannau 3, 4, 26 a 186, rwyf o'r farn fod y weithdrefn negyddol yn briodol.